



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Meini prawf ar gyfer asesu adeiladau hanesyddol at ddibenion cymorth grant

- Buddiannau Cymunedol
- Gwarchod ac Atgyweirio
- Ymdrin â Threftadaeth mewn Perygl
- Buddsoddi mewn Sgiliau
- Pwysigrwydd

Buddiannau Cymunedol

Mae grant gan Cadw yn cefnogi cynlluniau atgyweirio adeiladau hanesyddol a fydd yn rhoi bywyd newydd i adeiladau rhestredig ac a fydd o fudd sylweddol i gymunedau yng Nghymru. Felly, rhoddir blaenoriaeth i adeiladau rhestredig sy'n rhan o berchenogaeth gymunedol a chynlluniau sy'n helpu i gynnal a chadw cyfleusterau sy'n dwyn pobl ynghyd. Gall addoldai sydd ar gael at ddefnydd cymunedol ehangach fod yn gymwys, ynghyd ag adeiladau fel neuaddau pentref a neuaddau cymunedol, llyfrgelloedd ac institiwtau.

Gwarchod ac Atgyweirio

Diben y grant yw helpu gyda gwaith gwarchod ac atgyweirio; ni fydd adeiladau newydd na gwaith i wasanaethau yn gymwys i gael cymorth, er y gall Cadw helpu gydag elfen gwarchod ac atgyweirio cynllun ehangach. Mae cymorth wedi'i dargedu at arfer cadwraeth da, ac er mwyn helpu i gyflawni hyn, mae Cadw yn disgwyl i'r cynghorydd proffesiynol arweiniol fod ag achrediad cadwraeth.

Ar hyn o bryd, mae Cadw yn derbyn:

- **Penseiri** sydd wedi'u rhestru ar Gofrestr AABC yng nghategori 'A' (www.aabc-register.co.uk/), Cofrestr RIAS ar lefel Achrededig neu Uwch (www.rias.org.uk/directory/conservation/) neu Gofrestr Cadwraeth RIBA ar lefel Pensaer Cadwraeth Arbenigol (www.architecture.com/education-cpd-and-careers/membership-and-accreditation/specialist-conservation-architect-sca)
- **Syrfeyr adeiladau siartredig** sydd wedi'u rhestru ar Gofrestr Achrediad Cadwraeth Adeiladau RICS (www.rics.org.uk/join/member-accreditations/building-conservation-accreditation/)
- **Technolegwyr pensaernïol siartredig** sydd wedi'u rhestru yng Nghyfeiriadur Cadwraethwyr CIAT ar lefel Cadwraethwr Achrededig (<https://ciat.org.uk/find-a-practice/find-an-accredited-conservationist.html>)

Mewn rhai achosion, efallai y gall Cadw dderbyn peiriannydd siartredig neu arbenigwr treftadaeth arall fel y swyddog proffesiynol arweiniol priodol, ond byddai'n rhaid cytuno ar hyn cyn cynnig unrhyw grant.

Ymdrin â Threftadaeth mewn Perygl

Rhoddir pwyslais arbennig ar gynlluniau atgyweirio ac adfer a fydd yn helpu i sicrhau dyfodol adeiladau hanesyddol a fyddai mewn perygl yn sgil esgeulustod a dadfeiliad fel arall. Felly, rhoddir blaenoriaeth i adeiladau y mae Cadw wedi categorio eu bod 'mewn perygl'.

Buddsoddi mewn Sgiliau

Caiff y buddiannau a ddaw yn sgil buddsoddiad mewn sgiliau adeiladu traddodiadol a mynediad i adeiladau hanesyddol eu cydnabod, a rhoddir blaenoriaeth hefyd i gynlluniau sy'n cynnwys elfen o ddatblygu sgiliau a hyfforddiant, a chyfleoedd mynediad gwell. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn 'Grantiau ar gyfer Asedau Hanesyddol: Datblygu Sgiliau a Chyfleoedd Mynediad'.

Pwysigrwydd

Yn ogystal â'r meini prawf penodol hyn, bydd Cadw hefyd yn ystyried pwysigrwydd yr adeilad yn ôl y fframwaith a nodir yn Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/conservationprinciples/?skip=1&lang=cy

Mae'n nodi pedwar maes lle gall adeilad hanesyddol fod â gwerth, sef:

- **Gwerth tystiolaethol.** Mae hyn yn deillio o'r elfennau hynny o ased hanesyddol a all roi tystiolaeth am weithgarwch dynol yn y gorffennol, ac yn enwedig ei adeiledd hanesyddol, a gefnogir gan ddogfennaeth mewn rhai achosion. Mae pob adeilad yn rhoi peth tystiolaeth o weithgarwch dynol penodol yn y gorffennol o un cyfnod neu sawl cyfnod efallai, ond mae'r graddau y mae'n gwneud hynny yn dibynnu ar ei gydlyniant a'i gyfanrwydd. Mae'r graddau y mae adeiledd a chynllun gwreiddiol neu fesul cam clir wedi goroesi, neu fanylion sy'n ymwneud â'i ddefnydd (yn cynnwys manylion mewnol) yn arbennig o bwysig.
- **Gwerth hanesyddol.** Mae hyn yn cyfeirio at werthoedd dangosol neu gysylltiadol ased, a'i allu i gyfrannu at ddealltwriaeth o agweddau ar fywyd yn y gorffennol. Gall adeilad sydd mewn cyflwr da ddangos agwedd ar fywyd yn y gorffennol mewn ffordd well o lawer nag adeilad sydd wedi'i ddifrodi neu ei addasu'n helaeth. Ond gall gwerth hanesyddol fod yn llai diriaethol — er enghraifft cysylltiadau â phobl, digwyddiadau neu fudiadau nodedig y profwyd eu bod o bwys rhanbarthol neu genedlaethol.

- **Gwerth esthetig.** Mae hyn yn ymwneud ag ymddangosiad a ffurf ased a'i gydberthynas â'i leoliad. Gall ymwneud â dyluniad neu arddull ymwybodol, ymlyniad at draddodiad, at ansawdd crefftwaith neu dechnoleg adeiladwaith. Mae dylunio ymwybodol o ansawdd uchel — 'pensaernïaeth gwrtais' fel y'i gelwir sydd yn aml yn gysylltiedig â phenseiri penodol — ac adeiladau cynhenid sy'n dilyn traddodiadau rhanbarthol clir (a dyluniad anymwybodol efallai) yn bwysig. I'r ddau, mae cyfansoddiad, cynllun, dull adeiladu, deunyddiau, gorffeniad a manylion — yn cynnwys manylion mewnol — yn elfennau hanfodol o'r dyluniad. Gall cydberthynas adeilad â'i leoliad, boed yn dirwedd wedi'i ddylunio, yn dirwedd gwaith amaethyddol neu ddiwydiannol, neu'n dreflun, fod yn agwedd bwysig ar ei apêl esthetig.
- **Gwerth cymunedol.** Mae hyn yn deillio o'r ystyron sydd gan ased i'r bobl sy'n gysylltiedig ag ef. Mae'n cynnwys gwerth cymdeithasol ac economaidd, yn ogystal â gwerth coffaol, ysbrydol neu symbolaidd. Mae'r cyfraniad y gall adeilad ei wneud i les ei gymuned yn arbennig o berthnasol mewn unrhyw asesiad cymorth grant.

Mae Cadw yn disgwyl i'r cynlluniau y mae'n eu helpu ddiogelu neu wella pwysigrwydd adeiladau hanesyddol, er enghraifft, drwy warchod adeiledd hanesyddol, hyrwyddo'r defnydd o ddeunyddiau a thechnegau traddodiadol, ac annog gwell dealltwriaeth a mynediad.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Gwasanaeth yr Amgylchedd Hanesyddol (Cadw)
Plas Caeriw
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd CF15 7QQ

Ffôn: 03000 256000
Ebost: cadw@llyw.cymru

ISBN Digidol 978 | 78964 976 5

OGL © Hawlfraint y Goron 2019, Llywodraeth Cymru, Cadw, ac eithrio lle nodir yn whanol. WG36817

Gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru yw Cadw, sy'n gweithio i sicrhau bod amgylchedd hanesyddol Cymru yn hygyrch ac yn cael ei ddiogelu'n dda.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.